**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Nodir y pwynt. Gwall teipograffyddol yw hwn a dylai ddarllen “55” ac nid “55a”. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud fel y’i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 2:** Nodir y pwynt. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio fel y’i nodir isod cyn eu gwneud, er mwyn sicrhau bod y term diffiniedig yn cael ei ddefnyddio drwyddi draw.

**Pwynt Craffu Technegol 3:** Nodir y pwynt. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud, fel y’i nodir yn y tabl isod, er mwyn mynd i’r afael â hyn.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Nodir y pwynt. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud, fel y’i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 5:** Nodir y pwynt. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn bod y cyfieithiad yn amwys. Er y gellid bod wedi ysgrifennu strwythur y frawddeg hon fel yr awgrymir, nid ydym yn derbyn bod y fersiwn wreiddiol yn ddiffygiol.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Nodir y pwynt. Byddwn yn sicrhau bod y Rheoliadau yn cael eu diwygio cyn eu gwneud, fel y'i nodir yn y tabl isod.

**Pwynt Craffu Technegol 7:** Nodir y pwynt. Fodd bynnag rydym yn fodlon mai’r gair “bennu” yw’r cyfieithiad cywir o “determining” ac “establishing”. Nid ydym o’r farn bod angen “gadarnhau”.

*Cywiriadau drafftio technegol i’w gwneud cyn i’r Rheoliadau gael eu gwneud*

| **CYWIRIADAU A WNEIR I’R TESTUN CYMRAEG CYN GWNEUD** | **CYWIRIADAU A WNEIR I’R TESTUN SAESNEG CYN GWNEUD** |
|---|---|
| **Rheoliadau Gwahardd Llosgi Gwastraff Penodedig, neu ei Ddodi ar Safle Tirlenwi (Cymru) 2023** | **The Prohibition on the Incineration, or the Deposit in Landfill, of Specified Waste (Wales) Regulations 2023** |
| Bydd y cyfeiriad at “55a” yn y rhaglith i’r Rheoliadau yn cael ei ddisodli gan “55” | Bydd y cyfeiriad at “55a” yn y rhaglith i’r Rheoliadau yn cael ei ddisodli gan “55” |
| Ym mhenawdau Rhan 3 a rheoliad 4, bydd y cyfeiriadau at “Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016” yn cael eu disodli gan “Reoliadau 2016”.<br><br>Yng nghorff testun rheoliad 4(1), bydd y cyfeiriadau at “Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016” yn cael eu disodli gan “Rheoliadau 2016”. | Ym mhenawdau Rhan 3 a rheoliad 4, a hefyd yng nghorff testun rheoliad 4(1), bydd y cyfeiriadau at “the Environmental Permitting Regulations (England and Wales) Regulations 2016” yn cael eu disodli gan “the 2016 Regulations”. |
| Yn yr Atodlen, ym mharagraffau 6(c) ac 16(c), bydd “gellir” yn cael ei ddisodli gan “caniateir” | |
| Yn yr Atodlen, ym mharagraff 11(1), bydd “ganfyddir” yn cael ei ddileu | |
| Yn yr Atodlen, ym mharagraffau 25(2) a (3), bydd “ym mharagraff” yn cael ei ddisodli gan “yn is-baragraff”.<br><br>Yn yr Atodlen, ym mharagraff 28(2), bydd “Ym mharagraff” yn cael ei ddisodli gan “Yn is-baragraff”. | Yn yr Atodlen, ym mharagraffau 25(2) a (3) ac 28(2), bydd “paragraph” yn cael ei ddisodli gan “sub-paragraph”. |
| Bydd mân faterion fel fformatio, mân newidiadau i’r nodyn esboniadol a’r troednodiadau a chywiro gwallau teipograffyddol hefyd yn cael eu cywiro cyn gwneud | |